Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

24 Awst 2018

Annwyl Nick

Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru

Annwyl Nick

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 30 Gorffennaf ac rwy'n ddiolchgar am y cyfle i egluro'r materion a godwyd gennych. Er hwylustod, dilynaf fformat eich llythyr o ran trefn fy ymateb.

O ran Argymhelliad 1 - gofynnoch am eglurhad pellach ynglŷn â'r oedi cyn cyhoeddi canllawiau ac effaith hynny, yn ogystal â'r amserlen ar gyfer canllawiau newydd os bydd grant integredig yn cael ei gyflwyno.

Roedd ein llinell amser wreiddiol ar gyfer y gwaith hwn yn anelu at gyhoeddi'r canllawiau yn ystod Gwanwyn 2018. Daeth ymarfer ymgynghori a oedd yn gofyn am sylwadau ar ddrafft o'r canllawiau i ben ym mis Awst 2017 a chyhoeddwyd adroddiad o'r ymatebion allweddol i'r cwestiynau ymgynghori a'r pwyntiau a godwyd mewn gweithdy cysylltiedig ym mis Mawrth 2018. Roedd un mater penodol a godwyd yn ystod y broses ymgynghori yn golygu bod angen ystyried yn fanwl a oedd modd i'r canllawiau roi sylw i'r mater.

Derbyniaf y gellid bod wedi cynhyrchu a chyhoeddi'r canllawiau diwygiedig yn gyflymach. Fodd bynnag, roedd yr ymarfer ymgynghori a'r gwaith dilynol i ddiwygio'r canllawiau drafft yn cyd-daro â'r gwaith i sefydlu Ardaloedd Braenaru ar gyfer y Rhaglen Cyllido Hyblyg. Teimlwyd ar y pryd y byddai'r sector yn cael ei gynorthwyo drwy gael

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

negeseuon clir am y newid strwythurol sylweddol a gafodd ei brofi drwy Ardaloedd Braenaru'r Rhaglen Cyllido Hyblyg cyn iddynt gael canllawiau wedi'i diweddaru a allai gael ei ddehongli fel 'busnes fel arfer' o ran y rhaglen Cefnogi Pobl. Er mwyn osgoi dryswch, rhoesom flaenoriaeth i ddarparu canllawiau ar gyfer Cyllido Hyblyg, o gofio bod hwn yn ddull newydd a bod y cwestiwn gan y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn ymwneud â sut roedd y newidiadau hyn yn effeithio arnyn nhw. Cyn gynted ag y sefydlwyd yr ardaloedd braenaru, trodd ein sylw yn ôl at y canllawiau Cefnogi Pobl sydd bellach wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi. Rydym wedi parhau i gysylltu â darparwyr a chomisiynwyr Cefnogi Pobl yn rheolaidd er mwyn lleihau effaith yr oedi hwn a sicrhau, yn benodol, bod y ddarpariaeth honno'n canolbwyntio ar y flaenoriaeth i atal digartrefedd.

Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, gellir canfod y canllawiau diwygiedig isod:
https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/publications/sppgguide/?lang=cy
https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/publications/sppgguide/?lang=en

Wrth symud ymlaen, nid yw penderfyniadau Gweinidogol wedi'u gwneud eto mewn perthynas ag un grant posibl ac, o ganlyniad, nid ydym wedi llunio'r amserlen ar gyfer cyhoeddi unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Fodd bynnag, rwy'n deall awydd y Pwyllgor i gael sicrwydd, o ystyried yr oedi a grybwyllwyd uchod. Yr hyn y gallaf ei ddweud ar hyn o bryd yw bod y gwaith integreiddio grantiau wedi bod yn ymwneud â chyflawni mwy o nodau ac amcanion y 10 rhaglen sydd o fewn cwmpas y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi arfaethedig. Bydd yr hyn rydym yn ceisio'i gyflawni yn parhau er gwaethaf unrhyw newidiadau posibl i'r mecanwaith ariannu. O ganlyniad, byddai canllawiau'r rhaglen bresennol yn aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth pe penderfynir bwrw ymlaen â grant sengl.

Efallai y bydd hefyd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Pwyllgor pe bawn yn amlinellu'r dull a ddilynwyd ar gyfer ardaloedd braenaru 2018-19. Datblygwyd canllawiau yn ymwneud â'r grant sengl gyda mewnbwn gan awdurdodau lleol yr ardaloedd braenaru a rhanddeiliaid eraill yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Rhoddwyd y canllawiau hyn i'r awdurdodau lleol perthnasol ym mis Ionawr ochr yn ochr â'u llythyrau cynnig grantiau dangosol. Roedd y canllawiau penodol i gefnogi'r grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi yn 2018-19 yn cynnwys fframwaith deilliannau cychwynnol i helpu i lywio awdurdodau lleol a oedd yn ardaloedd braenaru i ddatblygu eu cynlluniau. Ni ddiwygiwyd y canllawiau ar bob un o'r rhaglenni a gwmpaswyd gan y grant.

Pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i ddatblygu grant sengl newydd, byddai'n parhau i fod yn broses gydweithredol gydag unrhyw ganllawiau newydd yn cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid.

O ran Argymhelliad 2 – gofynnoch am esboniad o'r modd yr ydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn canfod eu barn mewn amgylchedd agored.

Roeddwn yn bryderus o ddarllen eich sylwadau ynglŷn â'r adborth anffurfiol a gafodd Aelodau'r Pwyllgor nad yw rhai rhanddeiliaid wedi teimlo eu bod wedi gallu mynegi eu barn gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru. Un peth yw i rai rhanddeiliaid fod â

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

safbwyntiau gwahanol inni ar ddulliau polisi neu ddulliau cyflawni, ond peth arall yw i rai rhanddeiliaid ddweud eu bod yn teimlo na allant godi'r safbwyntiau hynny.

Fel y nododd y Pwyllgor, mae ein dulliau ymgysylltu wedi bod yn helaeth. Rydym wedi clywed gan amrywiaeth eang o sefydliadau gydag ystod eang o safbwyntiau. Mae'r rhain yn amrywio o randdeiliaid a hoffai weld yr holl grantiau heb eu neilltuo ac yn cael eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, i'r rhanddeiliaid hynny sy'n ystyried grantiau ar wahân yn gam diogelu pwysig i sicrhau nad yw'r flaenoriaeth sydd ynghlwm wrth y polisi cysylltiedig yn lleihau.

Mae rhanddeiliaid wedi codi nifer o bryderon gyda ni ynghylch y cynigion ar gyfer grant sengl ac rwy'n credu ein bod wedi ymateb i'r rhain mewn ffordd adeiladol yn ystod y cam ardaloedd braenaru hwn. Er enghraifft, rydym wedi ystyried a thrafod mesurau diogelu posibl y gellid eu cynnwys yn y trefniadau ar gyfer grant sengl i fynd i'r afael â rhai o'r risgiau posibl a all godi. Rydym hefyd yn ystyried rhinweddau trefniadau grant amgen a allai olygu gwahaniaethu rhwng rhaglenni tai a rhai nad ydynt yn ymwneud â thai, sydd hefyd yn fater sydd wedi'i godi gyda ni.

Yn ogystal â'r prosesau ymgysylltu a roddir ar waith gan swyddogion, mae Gweinidogion wedi ymgysylltu'n helaeth â llawer o sefydliadau a phartneriaid cyflawni ac mae cyfleoedd rheolaidd i drafod y grant newydd posibl. Yn benodol, mae Gweinidogion yn sensitif i bryderon y sector tai. Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi mynychu cyfarfodydd o Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ar ddau achlysur gwahanol, mae hefyd wedi ymweld ag ystod eang o wasanaethau a gefnogir gan y rhaglen Cefnogi Pobl ar draws Cymru gan siarad â defnyddwyr gwasanaethau yn ogystal â darparwyr ac mae nifer o Ysgrifenyddion a Gweinidogion y Cabinet wedi cael sylwadau gan y sector tai.

Mae darparwyr y rhaglen Cefnogi Pobl hefyd yn cymryd rhan yn y grŵp ardaloedd braenaru drwy gynrychiolydd o Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac yn manteisio ar y cyfle i fynegi eu barn drwy'r grŵp.

Felly mae'n siomedig ac yn destun pryder clywed eich bod wedi cael yr adborth anffurfiol hwn. Fel y gallwch weld, gobeithio, o'r enghreifftiau uchod, gallaf eich sicrhau ein bod yn croesawu pob cyfraniad at y ddadl ar y ffordd orau o gefnogi ein dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed a byddwn yn parhau i wneud hynny.

O ran Argymhelliad 7 - gofynnoch am eglurhad o'r rhesymau dros wrthod yr argymhelliad a manylion am faint o dystiolaeth ynghylch arbedion effeithlonrwydd posibl sydd ar gael i gefnogi ein penderfyniad

Mae angen imi egluro na ddylid dehongli'r ffaith bod yr argymhelliad cychwynnol wedi cael ei wrthod i olygu nad oes gennym ddiddordeb mewn tystiolaeth o arbedion y gellid eu cyflawni drwy grant integredig. Yn hytrach, credwn ei bod yn well i'r gwaith i ddatblygu'r dystiolaeth honno gael ei arwain gan awdurdodau lleol ac nid Llywodraeth Cymru. Byddwn yn casglu'r dystiolaeth honno gyda'n gilydd drwy ein gwerthusiad ffurfiol.

Mae awdurdodau lleol wedi cyflwyno dadal inni y byddai llai o grantiau'n golygu llai o fiwrocratiaeth. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, mai'r sbardun sy'n sail i'r gyllidoi hyblyg

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

yw galluogi awdurdodau lleol i weithio'n fwy arloesol i sicrhau gwell canlyniadau o ran gwasanaethau. Rydym yn ceisio profi nifer o'r honiadau a wneir gan awdurdodau lleol wrth inni fynd drwy'r flwyddyn fraenaru a dim ond un o'r rheini yw'r agwedd ariannol.

Rydym yn awyddus i ddeall y dystiolaeth mewn perthynas â'r maes hwn ac rydym wedi gofyn i Gymdeithas Trysoryddion Cymru ddarparu tystiolaeth o arbedion effeithlonrwydd posibl. Er mwyn deall lefelau'r arbedion effeithlonrwydd posibl y gellid eu cyflawni drwy ffordd wahanol o weithio, mae angen manylion am ddduliau gweithio mewnol llywodraeth leol nad ydynt ar gael i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru i sefydlu'r dystiolaeth yr ydym oll yn chwilio amdani.

Yn ogystal, rydym hefyd yn defnyddio'r gwerthusiad annibynnol i gael syniad o'r arbedion effeithiolrwydd allai fod ar gael ar gyfer newidiadau posibl mewn ffyrdd o weithio.

O ran Argymhelliad 8 - gofynnoch am ragor o fanylion ynghylch sut yr ydym yn disgwyl i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ymgysylltu ag ardaloedd braenaru'r rhaglen cyllido hyblyg.

Fel y gwyddoch o'n hymateb blaenorol, rydym yn awyddus i ddysgu oddi wrth y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac adeiladu ar y cynnydd hyd yn hyn o ran gwaith rhanbarthol neu, yn wir, drefniadau gweithio rhanbarthol eraill sydd ar waith ar draws grantiau eraill o fewn cwmpas y rhaglen braenaru cyllido hyblyg.

Mae'r canllawiau sy'n ymwneud â'r grant sengl a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol sy'n ardaloedd braenaru yn nodi y dylai awdurdodau lleol barhau i ymgysylltu â Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn yr un modd ag y gwnânt ar hyn o bryd. Disgwyliwn i awdurdodau lleol barhau i gyflwyno eu hasesiadau a'u cynlluniau i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a chymryd rhan yn y trefniadau ar y cyd ag awdurdodau eraill fel y maent wedi bod yn ei wneud hyd yn hyn.

Gallwn hefyd gadarnhau bod y gwerthusiad annibynnol yn cynnwys Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn y gwaith arolygu i sicrhau bod eu barn yn cael ei chofnodi. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Pwyllgorau hyn i sicrhau ein bod yn nodi arfer gorau a all gyfrannu'n gadarnhaol at unrhyw drefniadau grant newydd.

O ran Argymhelliad 13 – gofynnoch am syniad o'r amserlenni perthnasol ar gyfer y camau gweithredu ac a ydym yn disgwyl i fframwaith deilliannau gael ei ddatblygu o'r cychwyn ar gyfer unrhyw grant integredig newydd.

Datblygwyd fframwaith canlyniadau cychwynnol i gefnogi gwaith ardaloedd braenaru'r awdurdod lleol ac i arwain eu gwaith cynllunio ar gyfer 2018-19. Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf y fframweithiau canlyniadau unigol ar gyfer y rhaglenni sy'n ffurfio'r grant sengl.

Rwy'n cydnabod bod hwn yn 'waith ar y gweill' ac mae angen gwneud mwy i ddatblygu fframwaith canlyniadau a allai gefnogi'r newid i grant sengl pe bai'r penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Dylai datblygu fframwaith canlyniadau fod yn broses ailadroddus ac yn dibynnu ar benderfyniadau'r Gweinidogion ynghylch trefniadau grant yn y dyfodol, byddem yn ymgynghori'n ehangach ar fframwaith drafft er mwyn ceisio barn, a byddai'r gwaith ymgysylltu hwn yn cynnwys amserlenni mwy manwl.

Rydym yn ymgymryd â darn o waith i adeiladu ar y fframwaith canlyniadau cychwynnol er mwyn deall y canlyniadau allweddol ar gyfer grant sengl, a'r dangosyddion i'w cefnogi. Mae Wavehill, sy'n gwerthuso ardaloedd braenaru'r awdurdodau lleol, fel rhan o'u gwaith casglu tystiolaeth, yn anelu at roi gwybodaeth inni er mwyn helpu gyda hyn. Rydym yn disgwyl y bydd canllawiau a hyfforddiant ar waith i gefnogi gweithredu'n gyson unrhyw fframwaith canlyniadau neu drefniadau monitro newydd o'r cychwyn.

Rwy'n gobeithio y bydd fy ymatebion i'ch pwyntiau wedi rhoi'r eglurhad ychwanegol yr ydych chi ac Aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn amdanynt. Pe byddai gwybodaeth ychwanegol yn ddefnyddiol, rhowch wybod imi.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk